# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Gwilym**

**Plas Gwilym**
**Ffordd Victoria**
**Caernarfon**
**LL54 6HD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Plas Gwilym

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 27 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Tachwedd 2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gydberthnasau cadarnhaol ag eraill sy'n byw yn y cartref ac â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Maent yn penderfynu sut maent am dreulio eu hamser ac yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a drefnir gan y gweithwyr gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o anghenion gofal unigol pob unigolyn a sut maent yn dymuno cael eu cefnogi. Mae cynlluniau personol ar waith i gofnodi anghenion cymorth y bobl, ond nid ydynt bob amser yn cael eu creu'n brydlon. Mae hwn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella.

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, yn lân ac yn gartrefol. Mae mewn cyflwr da, a chaiff unrhyw waith gofynnol ei gwblhau yn ôl yr angen. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch priodol ar waith.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Caiff y rheolwr ei ddisgrifio fel *"supportive"* gan y gweithwyr gofal ac *"approachable"* gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r lefelau staffio yn adlewyrchu niferoedd ac anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cyflogir staff cegin a chadw tŷ sy'n golygu y gall y gweithwyr gofal ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gefnogi'r bobl a threulio amser gyda nhw. Mae trefniadau ar waith ar lefel darparwr gwasanaeth i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

## Llesiant

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu **yn iaith ddewisol (dewis iaith?)** y bobl. Caiff y Gymraeg ei chydnabod a'i gwerthfawrogi fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Caiff y bobl gynnig dewis pa iaith y byddent yn dymuno cael eu dogfennau gofal ysgrifenedig. Mae'r dogfennau gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog yn ogystal â'r arwyddion sy'n cael eu harddangos yn yr amgylchedd. Gall yr holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth siarad Cymraeg, yn ogystal â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref, ac yn canmol y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Gwnaethom siarad â'r bobl a'u perthnasau, a gwnaethant roi adborth cadarnhaol. Dywedodd y bobl wrthym *“hapus yma, staff yn gret”* Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod bob amser yn cael croeso pan fyddant yn ymweld, a gwnaethant ddisgrifio'r gofal a ddarperir yn *“fantastic”* a *“great”.* Gwelsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig, cyfeillgar a gofalgar. Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac eraill sy'n byw yn y cartref. Gwnaethant ddweud wrthym *“i gyd yn iawn, annwyl”* Mae'r dogfennau gofal yn nodi bod y gofal y mae'r bobl yn ei gael yn unol â'u cynlluniau personol a'u dewisiadau.

Caiff dewisiadau eu darparu sy'n sicrhau y caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn. Mae dewisiadau ar gael mewn perthynas ag arferion dyddiol dewisol y bobl a sut maent am dreulio eu diwrnod. Caiff amrywiaeth o weithgareddau gwahanol eu darparu, a gall y bobl ddewis cymryd rhan ynddynt neu eu gwylio os byddai'n well ganddynt. Yn ystod ein hymweliad gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft y Pasg. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau pan y caiff digwyddiadau cymdeithasol arbennig eu dathlu mewn gweithgareddau neu bartïon, a gwelsom luniau o'r bobl yn cymryd rhan ynddynt.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed. Caiff y bobl eu cynnwys wrth lunio eu cynlluniau personol a chânt gyfleoedd i ddweud sut maent am gael eu cefnogi. Darperir cyfleoedd i annog y bobl i rannu eu barn am y gwasanaeth a gânt. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol â'r bobl i gasglu gwybodaeth am unrhyw newidiadau y byddent yn hoffi eu gweld.

Mae'r cymorth a ddarperir yn hybu llesiant corfforol ac emosiynol y bobl. Mae cyflyrau iechyd y bobl yn hysbys cyn iddynt symud i mewn i'r cartref a chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi yn y dogfennau gofal. Nid yw'r cynlluniau personol bob amser ar gael i gofnodi gwybodaeth bwysig am anghenion gofal y bobl a sut y dylid eu cefnogi. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

## Gofal a Chymorth

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys cyn iddynt gael cynnig lle yn y gwasanaeth. Gwelsom fod trefniadau ar waith i'r rheolwr gwrdd â'r bobl, a'u perthnasau, i drafod eu hanghenion gofal a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni drwy symud i'r gwasanaeth. Caiff asesiadau eu cynnal gan weithwyr proffesiynol sydd eisoes yn adnabod yr unigolyn fel rhan o'r broses cyn derbyn. Mae hyn yn sicrhau bod y rheolwr yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref.

Mae cynlluniau personol ar waith y rhan fwyaf o'r amser, ond nid ydynt bob amser yn cael eu llunio mewn modd amserol. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r bobl ac maent yn cofnodi eu straeon bywyd a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Maent yn cofnodi anghenion gofal penodol a dewisiadau unigol yr unigolyn ar sut y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Caiff canllawiau manwl eu cynnwys hefyd ar sut y dylid diwallu anghenion gofal a chymorth pob unigolyn. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol ac maent yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.  Fodd bynnag, ni chaiff y cynlluniau personol bob amser eu rhoi ar waith yn brydlon, ac mae hyn yn cael effaith ar allu y gweithwyr gofal i gael gafael ar wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag anghenion y bobl. Mae hwn yn faes yn y gwasanaeth sydd angen ei wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

Mae trefniadau ar waith i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am lesiant y bobl. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod am faterion diogelu yn briodol i'r Awdurdod Lleol a rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) hefyd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i fod yn iach. Mae'r cofnodion yn dangos y cysylltir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn briodol i gael cyngor pan fydd unrhyw newidiadau'n digwydd i amgylchiadau'r bobl. Caiff y cyngor a roddir ei gofnodi a'i ddilyn er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael cynnig deiet amrywiol sy'n eu helpu i gadw'n iach. Caiff deietau arbenigol eu gwasanaethu, a dywedodd y cogydd wrthym y gall gynnig hyblygrwydd yn y prydau a ddarperir os bydd y bobl am gael rhywbeth sy'n wahanol i'r hyn sydd ar y fwydlen. Caiff pwysau'r bobl eu monitro'n rheolaidd. Mae siartiau meddyginiaeth yn nodi bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, sy'n helpu i reoli eu cyflyrau iechyd. Mae'r storfa meddyginiaeth yn ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd cynnes, glân a chartrefol. Ceir dewis o lolfeydd cymunedol lle gall y bobl ddewis treulio amser gydag eraill, neu eu teuluoedd os byddant am wneud hynny. Mae ystafell fwyta ar gael i'r bobl gael eu prydau yng nghwmni eraill, neu os byddai'n well ganddynt, gallant gael eu prydau yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn un o'r lolfeydd. Darperir ardaloedd i eistedd ar hyd y coridorau hiraf er mwyn i'r bobl allu gorffwys os bydd angen iddynt wrth gerdded o amgylch y cartref. Caiff yr ardaloedd cymunedol eu haddurno â gweithiau celf wedi'u fframio o dirweddau lleol a phobl leol, sy'n rhoi ymdeimlad o'r ardal leol yn y cartref. Mae ardaloedd gwastad ac ardaloedd i eistedd ar gael yn yr ardd er mwyn i'r bobl eistedd yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Caiff y staff cadw tŷ eu defnyddio i ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ffres er cysur y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gwaith ailaddurno parhaus yn mynd rhagddo a chaiff gwaith cynnal a chadw ei gwblhau pan fo angen.

Caiff ystafelloedd y bobl eu hunain eu personoli ag eitemau, sy'n galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Gwelsom fod gan y bobl luniau o'u teuluoedd a chofroddion sy'n bwysig iddynt yn eu hystafelloedd. Mae hyn yn creu ymdeimlad cartrefol yr ardaloedd personol y bobl.

Ar y cyfan caiff y risgiau i iechyd a diogelwch yn y cartref eu rheoli'n briodol. Mae gwiriadau parhaus ar waith er mwyn sicrhau bod risgiau i'r bobl yn cael eu nodi a bod mesurau priodol ar waith i reoli'r risgiau hysbys. Mae'r cofnodion yn dangos bod systemau diogelwch tân ar waith er mwyn sicrhau y caiff y rhagofalon priodol eu cymryd os bydd tân. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn bwriadu cynnal ymarfer gwagio'r adeilad os bydd tân yn fuan. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal newydd yn gyfarwydd â'r camau i'w cymryd os bydd angen gwario'r cartref gofal mewn argyfwng. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eraill, fel gwasanaethu cyfarpar codi, profi cyfarpar trydanol a gwasanaethu dyfeisiau nwy eu cynnal yn ôl yr angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i staff newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethant gwblhau shifftiau cysgodi fel rhan o'u cyfnod sefydlu ar gyfer y gwasanaeth. Darperir yr hyfforddiant perthnasol sy'n hybu gwybodaeth a sgiliau'r gweithwyr gofal, a'u dealltwriaeth o anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff y gweithwyr gofal eu cefnogi hefyd i ennill cymwysterau gofal ffurfiol. Mae'r rotas staff yn dangos bod y lefelau staffio yn ddigonol a gwelsom fod y gweithwyr gofal yn diwallu anghenion y bobl wrth iddynt godi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi cael cymorth pan fo angen. Dywedodd perthnasau wrthym nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am y lefelau staffio. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y lefelau staffio yn ddiogel yn y gwasanaeth, ond cânt gyfnodau prysur iawn ar adegau. Gwnaethant ddweud wrthym; *"lle braf i weithio"*, maent yn gweithio'n dda fel tîm, ac maent hefyd yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda gan y rheolwr.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir. Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr yn disgrifio'r gwasanaeth y gellir ei ddarparu yn gywir. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer. Caiff gwybodaeth am sut i wneud cwyn ei chynnwys yn ogystal â sut yr ymatebir i gŵyn. Dywedodd y bobl, a'u perthnasau, wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac maent yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon os bydd angen.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn trafod y gwasanaeth a ddarperir â'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd i wirio a yw'r gwasanaeth yn rhedeg fel y dylid ei wneud ac yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Cynhelir adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal bob chwe mis, a chaiff y bobl a'u teuluoedd eu cynnwys yn y broses. Mae'r adolygiadau yn asesu boddhad y bobl â'r gwasanaeth a gânt ac yn adlewyrchu ar sut mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid oes gan bob unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth gynlluniau personol ar waith ar ôl iddynt symud i'r gwasanaeth. Sicrhau bod gan y bobl gynlluniau personol ar waith cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. | Newydd |
| 60 | Ni chaiff Hysbysiadau Rheoliad 60 bob amser eu cyflwyno i AGC pan fo angen. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/04/2024